



# Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy Ysgol Ardal Newydd Caerhun a Threfriw Gorffennaf 2018

## GWAITH YN CYCHWYN AR DO YSGOL ARDAL NEWYDD CAERHUN A THREFRIW

Mae gwaith wedi cychwyn y mis hwn ar osod ffelt ac estyll ar rai rhannau o ysgol newydd ardal Caerhun a Threfriw. Mae rhan sylweddol o'r rhan hwn bron dal dŵr a dywed K&C Construction bod ynysu'r llawr, sgrîd a gwres o dan y llawr yn cael ei osod. Dros y 4 wythnos nesaf bydd y 'ffics cyntaf M&E' yn cychwyn gan gynnwys amddiffyn rhag meltt a bracedi ar gyfer paneli PV.

Mae K&C Construction wedi ymweld â disgyblion Ysgol Dolgarrog ac Ysgol Tal y Bont i esbonio a thrafod peryglon safle adeiladu. Mae'r contractwr hefyd wedi lansio cystadleuaeth poster i ddisgyblion a fydd yn cael ei beirniadu a bydd gwobr yn cael ei rhoi.

Gofynnwyd i blant, rhieni a thrigolion ddarparu syniadau ynghylch enw'r ysgol newydd ac mae'r corff llywodraethol dros dro yn adolygu'r awgrymiadau yn bresennol.



Er mwyn gweld lluniau misol o waith adeiladu'r ysgol ardal Caerhun a Threfriw newydd, gan gynnwys cylchlythyrau a dogfennau statudol, ewch i:

[www.conwy.gov.uk/caerhunathrefriw](http://www.conwy.gov.uk/caerhunathrefriw)



**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn ar gyfer  
dysgu a chyflawni**

**Conwy County, the right environment for  
learning and achieving**